Pris: 50c

# Papur Pawb

Medi 2012 Rhif 381



Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn gyda'r gwirfoddolwyr a fu'n clirio'n ddyfal wedi'r llifogydd.

## Tu fewn:

**LLUNIAU'R LLIFOGYDD, Y SIOEAU… A MWY yn ein ATODIAD LLIW**

# CYMWYNAS YW CYMUNED

**Tynnwyd sylw'r byd gan y llifogydd creulon a darodd Tal-y-bont ar 9 Mehefin. Daeth y wasg a'r cyfryngau yma, ffilmiwyd y cyfan a chynhaliwyd cyfweliadau gyda'r rhai anffodus a ddioddefodd effeithiau'r trychineb. I'r wasg a'r cyfryngau mae'r stori wedi hen ddod i ben ond nid felly i'r dioddefwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parhau i fyw mewn llety dros dro ac fe fydd yn fisoedd eto cyn iddynt ddychwelyd i'w cartrefi. Mae llif y Leri a'r Ceulan wedi gostegu ond mae effaith y diwrnod arswydus hwnnw ym mis Mehefin yn parhau'n graith ar fywydau sawl un o drigolion Tal-y-bont.**

Mae'n fwriad gan *Bapur Pawb* i gadw golwg ar y sefyllfa dros y misoedd nesaf, gan ei fod yn amlwg bod yr ymdriniaeth a gafwyd gan y cwmnïau yswiriant a'r awdurdodau yn amrywio. Dim ond drwy bwyso di-baid y cafwyd gweithredu prydlon gan rai o'r cwmnïau yswiriant. Llwyddwyd i ddarparu cartrefi dros dro i bawb, er bod o leiaf un person wedi gorfod symud o le i le, gan nad oedd y cwmni yswiriant yn effeithiol yn chwilio am gartref iddi. Mae eraill mewn fflatiau bach neu anaddas ac yn naturiol mae pawb am ddychwelyd i'w cartrefi hwy cyn gynted â phosibl. Ond mae pawb hefyd yn derbyn bod angen i waliau a lloriau'u tai sychu'n drwyadl cyn bod modd gwneud y gwaith adnewyddu angenrheidiol. Ar yr un pryd fe aiff amser heibio cyn yr adnewyddir y pontydd a ysgubwyd i ffwrdd gan nerth y llif.

Eto i gyd, gwelwyd y gymuned ar ei gorau yn ystod y cyfnod wedi'r gyflafan. Roedd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn wedi'i 'syfrdanu o weld y gymuned yn tynnu at ei gilydd mewn amrantiad.' Trefnwyd bwyd a llety mewn dim o dro, a chafwyd cymorth ugeiniau o bentrefwyr wrth fynd ati i glirio'r llanast. Daeth tafarn y Llew Gwyn, a oedd ei hun wedi'i tharo'n ddrwg gan y llifogydd, yn ganolfan argyfwng croesawgar, a mawr fu'r canmol o Nicky Byrne a'i staff. Aed ati i godi arian ac erbyn hyn cyfrannwyd dros £105,000 ar gyfer Gronfa Apêl Llifogydd Gogledd Ceredigion a sefydlwyd gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion. Bellach dosbarthwyd £700 i bob teulu a ddioddefodd o'r llifogydd yng Ngheredigion.

Yn lleol trefnwyd nifer o ddigwyddiadau codi arian a chyfrannwyd yn hael gan gymdeithasau lleol. Codwyd arian mewn ocsiwn yn y Llew Du, gwerthwyd lluniau gan Pete Monaghan a Ruth Jen yn yr Hen siop Sgidiau, ac ar 8 Gorffennaf cynhaliwyd digwyddiad hynod lwyddiannus o'r enw Hwyl Haf yn y Neuadd Goffa. Roedd y Neuadd yn fwrlwm o weithgareddau, gan gynnwys stondinau, raffl, te pnawn ac ocsiwn bywiog. Ar ddiwedd y dydd roedd dros £7,000 yn y coffrau ac erbyn heddiw mae dros £15,000 wedi'i godi yn lleol.

Oddi mewn i'r rhifyn hwn o *Bapur Pawb* ceir cofnod darluniadol o'r llifogydd ac ymateb y gymuned i'r argyfwng. Mae'n dangos yn eglur fod y gymdeithas yma yn un ofalgar a chlos. Mae 'big society' Mr Cameron eisoes yn bodoli yn y gymdogaeth hon. Ys dywed y bardd: 'Cymwynas yw cymuned'.



Robat Gruffudd, Bryngwyn, Tal-y-bont ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol wedi iddo ennill Gwobr Daniel Owen am ei nofel *Afallon*. Llongyfarchiadau mawr iddo. Ceir mwy o hanes y brifwyl ar dudalen 8.

**Afiaith**
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

**Ioga**
Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.
Pris £5.00
Cysylltwch a
**Sue Jones-Davies**
**01970 624658**



Medi12 ceri lliw 2.indd 1 13/09/2012 11:32

## Papur Pawb

| | | |
|---|---|---|
| **Golygydd Cyffredinol:** | Gwyn Jenkins<br>Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion<br>golygydd@papurpawb.com | **(01970) 832560** |
| **Tynnu lluniau:** | Cysyllter â golygyddion y mis. | |
| | **GOHEBYDDION LLEOL** | |
| **Bont-goch:** | Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch | **832566** |
| **Parsel Henllys:** | Dilys Morgan, Alltgoch | **832498** |
| **Eglwysfach/Ffwrnais:** | Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais | **(01654)781312** |
| **Tre Taliesin:** | Siân Saunders, Is-y-coed, Taliesin | **832230** |
| **Tal-y-bont:** | Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont<br>Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont | **832592**<br>**832438** |
| **Tre'r Ddôl** | Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl<br>Janet Evans, Cefngweiriog | **832429**<br>**(01654) 781260** |
| **Maes y Deri** | Eirlys Jones, 91 Maes y Deri | **832483** |
| | **CYMDEITHAS PAPUR PAWB** | |
| **Cadeirydd:** | Geraint Pugh, Cysgod-y-Llan, Tal-y-bont | **832433** |
| **Is-gaderydd** | Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont | **832093** |
| **Ysgrifennydd:** | Siân Pugh, Cysgod-y-Llan, Tal-y-bont | **832433** |
| **Trysorydd:** | Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont | **832093** |
| **Tanysgrifiadau:** | Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont | **832448** |
| **Hysbysebion:** | Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais | **(01654) 781312** |
| **Plygu:** | Gwenllian Parry-Jones, Lyn Hammonds | |
| **Dosbarthwyr:** | Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, | |

**Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd y Gorllewin a Bwrdd yr Iaith Gymraeg**


# Llythyrau

**Annwyl olygydd**

Yn y golofn Y Gair Olaf yn rhifyn Mehefin, gofynna Goronwy Jones a oes yna eraill yn cofio bod yn aelod o Glwb Plant Y Cymro. Roeddwn i'n aelod brwd o'r Clwb ar ddechrau'r 1950au a derbyniais sawl gwobr, sef archeb bost gwerth hanner coron, o law D'Ewyrth Tom!

**Carys Briddon**

**Annwyl olygydd**

Digwyddodd rhywbeth hollol annaturiol i ni eleni, rhywbeth na welais i'n digwydd erioed o'r blaen.
Dath yr hesbin dau ddant yma a oen bach yn y wythnos gynta o Ionawr 2012 ar y mynydd, ynghanol yr eira. Peth anaturiol iawn yw hi i Ddafad Fynydd Gymrag i ddod ag oen bach mor gynnar yn y flwyddyn, ond yn rhyfeddach fyth dath ag oen



bach arall wythnos ola ym mis Mehefin 2012. Rhaid ei bod wedi cymryd hwrdd mewn tair wythnos ar ôl geni'r oen cynta. Weles i erioed ddafad yn cymeryd hwrdd pan mewn llawn llath o'r blan.Weloch chi? Rhowch wbod.

**Gwilym Jenkins**


Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120



**Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb**

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

**Hefyd:**

- **Papur Pawb Sain** – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- **Tabl amseroedd bysiau** yn yr ardal
- **Ôl rifynnau'r papur**

Noddwyd y wefan hon gan: Anthony Motors Volkswagen

**papurpawb.com**


# Dyddiadur

**Medi**

**15 - Cartref Tregerddan**
Te Moethus 2.30
*(Elw tuag at y cartref uchod)*

**16 - Bethel** 2 *Parch J.E.Wynne Davies*
**Nasareth** 2 *Parch Richard Lewis*
**Rehoboth** 10 *Parch Richard Lewis*
**Eglwys Dewi Sant** 11 *Boreol Weddi*

**17 - Merched y Wawr** 7.30 Neuadd
*Noson o goginio yng nghwmni'r cigydd Meirion Roberts*

**22 - Neuadd Goffa**, Talybont 10.30-12.00
*Bore Coffi (Elw tuag Eglwys Dewi Sant)*

**23 - Bethel** 10 *Gweinidog (C)*
**Nasareth** 5 *Bugail*
**Rehoboth** 2 *Parch Elwyn Pryse*
**Eglwys Dewi Sant** 11 Gwasanaeth Teuluol

**30 - Bethel** 2 *Gweinidog*
**Nasareth** 5 *Parch Terry Edwards*
**Rehoboth** 10 *Parch Ifan Mason Davies*
**Eglwys Dewi Sant** 10 *Gwasanaeth Undebol*

**Hydref**

**5 - Eglwys Elerch Bontgoch** 7.00
Cymanfa Ganu *Cwrdd Diolchgarwch am y cynhaeaf Arweinydd Dai Jones. Llanilar Unawdydd Rebecca Jewell*

**7 - Bethel** 10 Cwrdd Diolchgarwch (Beti Griffiths)
**Nasareth** Uno ym Methel
**Rehoboth** 5 Bugail (C)
**Eglwys Dewi Sant** 11 Cymun

**11 - CIC**: Noson agoriadol gydag Eleri, Festri'r Garn am 7.00

**13 - Neuadd Goffa** Bore Coffi (Apêl Guatamala) 10-30 – 12


Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MEDI/HYDREF:**

- C21 yn Morlan (7.30, 26 Medi)
- Bwrw Bol – trafodaeth ar bwnc moesol cyfredol (7.30, 3 Hydref)
- C21 yn Morlan (7.30, 10 Hydref)
- *Y Canpunt* – cyflwyniad Cwmni Morlan o ddrama Kate Roberts (20 & 21 Hydref)

**Manylion llawn ar wefan Morlan: www.morlan.org.uk**

**CROESO CYNNES I BAWB!**

*Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH 01970-617996; morlan.aber@gmail.com*


Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech ddanfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442), glenysedwards33@btinternet.com o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

**EGLWYS DEWI SANT TALYBONT**
Bore Coffi
Neuadd Goffa
Talybont
Bore Sadwrn, 22 Medi
10.30 – 12.00
Tal mynediad: £2.00; plant am ddim
Raffl ac amryw o stondinau
Croeso cynnes i bawb

Capel Nasareth
**VIVA GUATEMALA**
Apêl
Eglwys Bresbyteraidd Cymru 2012
Bore Coffi
Sadwrn 13 Hydref,
10.30 – 12.00
Neuadd Goffa Tal-y-bont
**Croeso cynnes i bawb**

**FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN**
TE PRYNHAWN YN Y CARTREF
DYDD SADWRN, 15.9.2012
am
2.30 o'r gloch
**Croeso i bawb**


Golygyddion y rhifyn hwn oedd Gwyn a Fal Jenkins gydag Iolo ap Gwynn yn dylunio. Dyluniwyd yr atodiad lliw gan Ceri Jones.
Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Phil Davies a Megan Mai (gwynionydd@btinternet.com)
Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion **erbyn Dydd Gwener, 5 Hydref.**
Bydd y papur ar werth ddydd Gwener 12 Hydref.








Ariennir gan Lywodraeth Cymru


**Astudio yng Nghaeredin**
Pob dymuniad da i Hedydd Mai Phylip, Gwynionydd, Tal-y-bont, sydd wedi derbyn ysgoloriaeth i ddilyn cwrs Meistr yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Caeredin. Mae Hedydd newydd ddychwelyd o'r cyfandir ar ôl treulio cyfnodau'n gweithio ym Mharis a Brwsel.

**Arddangosfa**
Llongyfarchiadau i Flic Eden, 7, Seaview Terrace, Tre Taliesin a gynhaliodd yr arddangosfa gyntaf o'i gwaith celf ar 26/27 Awst ar gyfer Llwybr Celf Ceredigion. Roedd ei phaentiadau (gan gynnwys rhai golygfeydd o'r fro) a'i llyfrau teithio gyda brasluniau'n brydferth iawn ac yn llawn lliw a chymeriad. Gobeithio y byddwn yn gweld mwy o waith Flic yn y dyfodol.

**Marchogwr Rhoslan**
Enillodd Rhys Wynne Davies, Rhoslan, Tal-y-bont yr ail wobr gyda'i ferlen 7 oed, Markoak Tiger Tilly yn y dosbarth Merlen Gwaith Hela yn y sioe Amaethyddol yn Llanelwedd – tipyn o gamp. Dai awn ti.

**Saethwr tan gamp**
Ar ddiwedd y tymor yng Ngholeg Glynllifon, dyfarnwyd Tarian Saethyddiaeth i Hefin Dafydd Evans, Neuadd Fawr, Tal-y-bont.

**Cant oed**



Miss Peggy Evans, gynt o Rhiwlan, Tal-y-bont, yn dathlu ei phenblwydd yn 100 oed yng nghartref Tregerddan, Bow Street.

# Pobl a Phethe



Aelodau Ysgol Sul Bethel y tu allan i gapel Bethesda, Tŷ Nant wedi iddynt gynnal gwasanaeth yno ar 1 Gorffennaf

**Stondin Orau**
Dyfarnwyd gwobr am y stondin orau ym marchnad y ffermwyr, Aberystwyth i Mrs Dilys Morgan, Alltgoch.

**Prawf Gyrru**
Gwyliwch bawb! Mae chwech o yrrwyr newydd sbon ar y ffordd fawr wedi iddynt basio eu profion gyrru'n ddiweddar! : Sam Ebenezer, 2 Maes y Felin, Tal-y-bont, Gruffydd Jones, Pistyll y Llan, Tal-y-bont, Hefin Evans, Neuaddfawr, Tal-y-bont, Prys Hughes, Coed Y Crib, Tal-y-bont, Hefin Hopkins, Dyffryn, Tal-y-bont a Harri James, Ynyslas.

**Dathliadau**
Dathlodd Harry a Medi James eu priodas Ruddem yn ystod yr haf. A'r mis hwn hefyd bydd David a Judith Chamberlain, Llys Meirion, Tal-y-bont hwythau yn dathlu eu priodas Ruddem. Ymlaen i'r briodas Aur! Cafodd Wayne Bradley, 97 Maes-y-deri, Tal-y-bont, Gwyn Jenkins, Ffwrnais, Mandy Davies, Maes-y-deri a Helena Ni Shuilleabhain,Pen-y-gro, Bontgoch benblwyddi arbennig yn ddiweddar. Gobeithio i chi gyd gael hwyl ar y dathlu.

**Carnifal Aberystwyth**
Dewiswyd Heledd Davies, Gwynfryn, Tal-y-bont yn un o'r morynion yng ngharnifal Aberystwyth yn ystod yr haf. Roeddet ti'n edrych yn bert iawn hefyd Heledd.

**Brysiwch wella**
Treuliodd Chris Fox, Y Bwthyn, Pentrebach, gyfnod yn Ysbyty Bronglais.
Yno hefyd bu Mr Gareth Evans, Swn y ffrwd, Bontgoch,, Dr Ian Rhodes, 1, Maes y felin, Tal-y-bont a John Jenkins, Glanceulan, Tal-y-bont.

Treuliodd Geraint Evans, Cwmslaid, Tal-y-bont gyfnod yn yr ysbyty yn Abertawe.
Gobeithio eich bod i gyd yn gwella erbyn hyn.

**Prif fachgen Penweddig**
Dymunwn yn dda i Sam Ebenezer, 1 Maes y felin, Tal-y-bont gyda'i ddyletswyddau fel prif fachgen Penweddig. Cafodd dymor yr haf prysur yn perfformio gyda Chwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd ac y mae'n argoeli i fod yn flwyddyn brysur arall iddo gan y bydd yn chwarae'r prif ran yn y panto Aladin yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i Ffion a Phil Hatfield, Sŵn-y-gwynt, Bont-goch ar enedigaeth eu mab, Osian Llywelyn, yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r tri ohonynt.
Hefyd i Charlene ac Anthony Hopkins, 87 Maes-y-deri ar enedigaeth Leah Rose, chwaer fach i Zac a Jaden.
Cyrhaeddodd merch fach, Abbey, i Lauren a Gareth Hughes, Pennaber, Tal-y-bont. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Antony a Shelley Foulkes, Foelas, Tre Taliesin, ar enedigaeth eu mab Charlie Lloyd yn ystod yr haf, brawd bach i Libby a Lewys.











Medi12 ceri lliw 2.indd 3 13/09/2012 11:32

# PRIODASAU





Yn Eglwys Sant Pedr, Bontgoch ar 28 Gorffennaf, priodwyd Cathryn Lloyd-Williams,Moelgolomen a Cynrig Williams,Caerfyrddin. Treuliwyd y mis mêl yng ngogledd Sbaen. Pob dymuniad da i'r ddau.

Ar ddydd Sul y 10fed o Fehefin, cynhaliwyd priodas Ceri Mair Jones, Llwynglas, Talybont a Dylan Powell Jones, Gwerniago, Pennal yng Nghapel Bethel Talybont. Y gwas priodas oedd Iwan Jones a'r morynion oedd Geinor Jenkins ac Eleri Jones. Treuliwyd y mis mêl yn teithio yn yr Unol Daleithiau. Pob lwc i'r ddau i'r dyfodol!


Bistro
Gannets
Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30




Priodwyd Hawen, merch Illtyd a Delyth Griffiths, Carnedd y Gors, Glandyfi, â John, mab Dr a Mrs Ian Murray, Aberdeen ar 2 Mehefin yn Eglwys y Santes Fair, Beddgelert. Cynhaliwyd y wledd briodas ym Mhortmeirion a threuliwyd y mis mêl yn Hong Kong a Tseina.



Dylan Lewis, mab Susan a Huw Lewis, Maesgwyn, Tre'rddôl, a Tina Jones a briodwyd yn Llannerch Aeron ar 25 Awst. Dathlwyd yr achlysur gyda the prynhawn ac yna gyda mochyn wedi ei rostio yn Ysgubor Teile. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn hen gartref teulu Tina yn Temple Bar.


**Iwan Jones**

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760


## RHIAN YN Y GEMAU OLYMPAIDD



O'r 3ydd o fis Awst am wythnos bûm yn gwirfoddoli yn y Stadiwm Olympaidd yn Stratford, Llundain fel un o'r *Games Makers*. Fy swydd i oedd cynorthwyo pobl mewn cadeiriau olwyn i gyrraedd eu seddi yn y Stadiwm. Roeddwn yn gweithio fel rhan o dîm bach o ryw bump ohonon ni ger un o'r pontydd oedd yn arwain i'r Stadiwm. Roedd fy ngwaith yn amrywiol iawn, yn cynnwys gwthio pobl i'w seddi yn eu cadeiriau olwyn, eu helpu i newid eu tocynnau os nad oedd y seddi yn addas, mynd ag ambell VIP neu athletwyr Paralympaidd i'r seddi VIP a gwneud yn siŵr fod y sgwteri anabledd wedi'u parcio'n saff. Cefais gyfle i wylio llawer o gystadlaethau yn y Stadiwm gan gynnwys y noson '*Super Saturday*' pan enillodd Prydain Fawr dair medal aur o fewn awr i'w gilydd. Gwelais amryw o bobl enwog gan gynnwys Seb Coe, David Cameron, Mick Jagger a Carwyn Jones! Uchafbwynt yr wythnos oedd cynorthwyo Tanni Grey-Thomson a'i theulu am dair noson yn y Stadiwm. Roedd yn brofiad anhygoel!

*Rhian Nelmes*

# Y LLEW GWYN AR GAU

Wrth i'r papur fynd i'w wely, roedd arwydd y tu allan i'r Llew Gwyn, Tal-y-bont, yn cyhoeddi fod y dafarn ar gau. Daeth cyfnod tenantiaeth Nicky Byrne yno i ben ddechrau Medi, er mawr siom i selogion y dafarn. Roedd Nicky a'r teulu wedi llwyddo i adfer y dafarn yn ganolfan gymdeithasol i'r pentref, fel y bu flynyddoedd yn ôl. Yn ystod ei chyfnod yno cafwyd croeso cynnes, gwasanaeth effeithiol, peint a bwyd da.

Roedd Nicky wedi penderfynu rhoi'r gorau iddi am sawl rheswm, gan gynnwys y ffordd y cafodd hi ei thrin gan y bragwyr. Mae'n haeddu hoe wedi cyfnod mor brysur a dymunwn yn dda iddi hi a Sean yn y dyfodol.

Un arall a gollwn o'r Llew Gwyn yw'r ferch o Awstralia, Natalie, cariad Danny, mab Nicky a Sean. Roedd Natalie yn hynod effeithiol a chymwynasgar y tu ôl i'r bar ac wedi dod yn rhan o'r gymuned yma yn Nhal-y-bont. Gwaetha'r modd, roedd ei fisa wedi dod i ben ac fe'i cludwyd oddi yma ddiwedd Awst gan griw o wyth o swyddogion yr Asiantaeth Ffiniau, a'i danfon yn ôl i Awstralia. Dangoswyd fawr ddim goddefgarwch yn yr achos hwn a trist yw clywed na fydd ganddi'r hawl i ddychwelyd i Gymru am gyfnod o dair blynedd.

Mawr obeithiwn y bydd y Llew Gwyn yn ail-agor yn y man ond bydd gan y tenantiaid newydd dasg anodd o'u blaenau i gynnal llwyddiant y blynyddoedd diwethaf dan ofal Nicky.

# CRONFA CANSER Y FRON



Ar ddydd Iau 5 Gorffennaf cyflwynwyd siec am £ 2,250 gan y *Ravin 'Stompers* i'r Nyrs Arbenigol Diane Richards ar gyfer Cronfa Canser y Fron Bronglais. Codwyd yr arian yn ystod yr ŵyl 'Country & Western' a gynhaliwyd llynedd.




Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion
i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

**Cysylltwch â ni am fanylion pellach**

**Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: cis@ceredigion.gov.uk**
**Gwefan: http://cis.ceredigion.gov.uk**
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron,
Ceredigion, SA46 0PA


## MERCHED Y WAWR TAL-Y-BONT A'R CYLCH



Ar noson braf, y 18fed o fis Mehefin, aeth aelodau Merched y Wawr ar daith i Ganolfan Treftadaeth Ystradgwyn yn Nhal-y-llyn. Ar un adeg roedd capel Ystradgwyn yn ganolfan prysur i'r gymuned, ond ar ôl cau'r capel cafodd ei droi yn Ganolfan Treftadaeth gan y perchennog, Marian Rees. Ar ôl ein croesawu yno, bu Marian yn adrodd hanesion am y gwahanol gymeriadau a arferai fyw yn yr ardal, yn ogystal â pheth o hanes diddorol Tal-y-llyn. Cawsom gyfle hefyd i edrych ar hen luniau o'r ardal sy'n cael eu harddangos yn y capel. Yn ystod yr haf mae Marian yn cynnig rhaglen lawn o sgyrsiau ac arddangosfeydd ar wahanol bynciau yn ymwneud â Chymru a'r Gymraeg yn y Ganolfan. Ar ôl treulio orig ddifyr yno, aethom i Blas Dolguog, ger Machynlleth, i gael pryd o fwyd cyn troi am adre.

Ar ddydd Sadwrn, 14 Gorffennaf, aeth nifer o'r aelodau a ffrindiau i Lansteffan ar wahoddiad Ann Thomas, un o gyn-aelodau'r gangen, sy'n byw yn Llangain erbyn hyn. Roedd Ann a'i gŵr Wyn wedi trefnu taith gerdded ar ein cyfer, ac ar ôl dringo i Gastell Llansteffan buom yn cerdded ar hyd llwybr yr arfordir i weld golygfeydd godidog yr ardal. Ar ddiwedd y prynhawn, aethom i westy Pant-yr-athro Mansion House i gael pryd o fwyd, a diolchwyd yn gynnes i Ann a Wyn am drefnu diwrnod hyfryd ar ein cyfer.


Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

GAREJ PAUL JOSEPH

Gwasanaeth & thrwsio
pob math o geir
01970 822220
Danglo, Lôn Glanffred, Llandre


### Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn 2012

Cynhaliwyd Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn yn y Llanfach, Taliesin, ar ddydd Sadwrn Medi 1af am y tro cyntaf ers 23 mlynedd.

Agorwyd y sioe yn swyddogol gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, a roddodd groeso cynnes i bawb.

Roedd y neuadd yn llawn o gynnyrch gardd o safon uchel, gwaith celf, coginio, blodau, crefftau, cyffeithiau, ffotograffau, cynnyrch llaeth a heb anghofio'r Bwgan Brain trawiadol a groesawai pawb wrth gyrraedd.

Darparwyd te ar gyfer y beirniaid gan Sefydliad y Merched Taliesin.

Bu'r plant yn mwynhau cael eu hwynebau wedi'u peintio gan Kelly Milverton a swynwyd llawer gan "*Bee Observation Hide*" a drefnwyd gan wenynwyr Taliesin..

Hoffai'r pwyllgor a fu'n trefnu'r sioe ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gynnal y sioe a hefyd i'r beirniaid

*(ceir lluniau o'r sioe yn yr atodiad lliw)*



Medi12 ceri lliw 2.indd 5 13/09/2012 11:32

# SIOE TAL-Y-BONT 2012

Er yr haf gwlyb, cynhaliwyd Sioe Tal-y- bont yn ôl ei harfer ar ddydd Sadwrn olaf Awst ar gaeau'r Llew Du eleni eto. Y llywyddion eleni oedd Mr a Mrs John Thomas, Frondeg, Castell Newydd Emlyn. Cafodd John ei fagu yn Llys Etna, Tal-y-bont, yn un o deulu adnabyddus yn yr ardal.

Mae lle i ddiolch i Bwyllgor y Sioe a'r holl wirfoddolwyr am lwyddo i gynnal sioe fywiog unwaith yn rhagor.

Isod ceir y canlyniadau ac mae nifer o luniau o'r Sioe i'w gweld yn yr atodiad lliw.

### Ceffylau

**Cob Adran D**
**Ebol neu eboles 2 neu 3 Oed**
1. Ceris Williams, Penrhos
**Ceffylau Gwedd**
**Caseg Hesb neu Geffyl**
2. Paul Fleming, Penygraig
**Ebol, eboles neu Geffyl**
2. Paul Fleming
**Merlod Marchogaeth**
2. Sheila Davies, Rhoslan
**Dangosydd Ifanc**
3. Rhys Davies, Rhoslan
**Merlen Marchogaeth**
1. Rhys Davies
**Dosbarth Lleol**
2. Rhys Davies

### Da Duon

**Llo Tarw**
1. Trefor Jones, Cwmcae
**Heffer a aned rhwng 1.3.2010 a 28.2.2011**
1. Trefor Jones
3. Teulu Cerrigcaranau
**Heffer a aned ar ôl 1.3.2011**
3. Teulu Cerrigcaranau

### Da Godro

**Heffer heb Godi Dannedd**
1. G & R Watkin, Henllys
**Heffer gyflo**
1 a 2. Teulu Cerrigcaranau
**Heffer Sych**
1. Teulu Cerrigcaranau
**Heffer yn llaetha**
1. G & R Watkin
2 a 3. Teulu Cerrigcaranau
**Buwch Odro**
1. Teulu Cerrigcaranau
2 a 3. G & R Watkin
**Pencampwr:** Teulu Cerrigcaranau
**Cilwobr:** G & R Watkin

### Defaid Mynydd Cymreig

**Hwrdd 2 flwydd**
1. Dafydd Jenkins, Tanrallt
2. Teulu Tyngraig
3. D Nutting, Tyhen
**Hwrdd Blwydd**
1 a 2. Teulu Tyngraig
3. D Nutting
**Oen Hwrdd**
1,2 a 3. Teulu Tyngraig + cwpan
**2 Famog**
1 a 2. Dafydd Jenkins
**2 Dafad flwydd**
1. Teulu Tyngraig
2 a 3. Dafydd Jenkins
**2 Oen Fenyw**
1. Teulu Tyngraig
2. D Nutting
3. Dafydd Jenkins
**Grŵp**
1 + cwpan. Dafydd Jenkins
2. R Bailey, Lletyifanhen
**Pâr o hyrddod**
1 + cwpan. D Nutting
2. Dafydd Jenkins
3. R Bailey
**Pencampwr** a **Chilwobr:** Teulu Tyngraig

Texel
**Oen Hwrdd**
2. D a L Morgan, Alltgoch
**Dafad 2 flwydd**
1 & 3. D a L Morgan
**Dafad Flwydd**
1 a 2. D a L Morgan
**Oen Benyw**
1 a 2. D a L Morgan
**Grŵp**
D a L Morgan
**Pencampwr a Chilwobr**
D a L Morgan

### Defaid Dorset Moel a Chorniog

**Hwrdd**
2. Griffiths a Davies, Dolclettwr
**Dafad Oedrannus**
3. Griffiths a Davies
**Dafad Flwydd**
1 a 2. Griffiths a Davies
**Oen Fenyw**
1. Griffiths a Davies
**Oen Fenyw heb ei thocio**
3. Griffiths a Davies
**Pencampwr**
Griffiths a Davies

### Bridiau Pur Eraill

**Hwrdd**
3. Gwion Evans, Tanllan
**Oen Hwrdd**
2. Gwion Evans
3. Susan Rowlands, Erglodd
**Dafad**
3. Gwion Evans
**Dafad Flwydd**
3. Gwion Evans
**Oen Fenyw**
1. Gwion Evans
3. Susan Rowlands

### Bridiau Prin a Lleiafrif

**Oen Hwrdd**
1. Trefor Jones,Cwmcae
**Dafad Flwydd** 2 Trefor Jones
**Oen Fenyw** 1 Trefor Jones
**Grwp** 1 Trefor Jones
**Cilwobr** Trefor Jones

### Gwlan ar y Carn

**Gwlan Lliw**
1. Susan Rowlands
**Pencampwr:** Susan Rowlands

### Ŵyn Tewion

**Dan 32 kg**
2. Huw Davies, Lletyifanhen
3. Teulu Tyngraig
**Dros 32 kg**
2. Huw Davies
3. D a L Morgan, Alltgoch
**Ŵyn Mynydd**
1 + **Pencampwr:** D a L Morgan
2. Teulu Tyngraig
3. Gwion Evans

### Cneifio

**Peiriant**
2. Dewi Jenkins, Tyngraig
**C.Ff.I.**
2. Sion Evans, Neuadd Fawr
**Dan 18**
2. Gwion Evans

### Cŵn

**Ci neu Ast Ddefaid**
2. Gruff Rhys Williams, Lletyifanhen
3. Teleri Morgan, Pwllglas
**Ci neu Ast dros 12 modfedd**
1. Harri Mason, Maes y Coed, Ffwrnais
**X frid**
2. Gwydion James, Cerrig caranau Isaf
**Ci â'r Gynffon yn siglo fwyaf**
1. Phillip Evans, Dôl Pistyll
**Tywysydd Ifanc**
1. Megan Davies, Rhoslan
2. Ceri Davies, Rhoslan

### Dofednod

**Bantam Prin Ceiliog**
1 a 2. Fleming Jenkins,12 Dôl Pistyll
**Bantam Prin Iar**
1 a 2. Fleming Jenkins
**Plant**
1. Ynyr Siencyn, Tanrallt
2 a 3. Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll
**Plant**
1. Becca Fflur
2 a 3. Gwydion James
**Hwyaid Brid Ysgafn**
1 a 2. Fleming Jenkins
**Bantam (Meilart)**
2 a 3. Fleming Jenkins
**Bantam (Hwyaden)**
2 a 3. Fleming Jenkins
**Plant**
1, 2 a 3. Becca Fflur

**Enillwyr Cwpannau**
**Ieir - Dosbarth y Plant:** Ynyr Siencyn
**Hwyaid - Dosbarth y Plant:** Becca Fflur
**Tlws Llwynglas:** Becca Fflur

## Y BABELL

### Cynnyrch fferm

**Belen o wair dôl**
1. Garmon Nutting, Tŷ Hen Henllys
2. Ynyr Siencyn

**Belen o wair hadau**
1. Bedwyr Siencyn

### Cynnyrch gardd

**2 fresychen**
2. D R O Jones, Berthlwyd
**2 giwcymber**
1. R A Spencer, Taliesin
3. D R O Jones
**3 choesyn riwbob**
2. Mai Leeding, Glannant, Taliesin
**Casgliad o Berlysiau**
1&3 H Hicks, Llangynfelyn
2. Ros Mathews, Golwg y Môr
**3 chorbwmpen**
1. H Hicks
2 & 3 R A Spencer
**3 choesyn riwbob**
1. D R O Jones
2. D E Evans, Coed yr Eos, Taliesin
**4 ffa dringo**
1 D R O Jones
2 J a S Chadbourne, Staylittle
**Casgliad o lysiau ar hambwrdd**
1 Ann ac Ian Mitchell, Llangynfelyn
2 Geraint Lewis, York House, Tre'r ddôl
3 Helen Hicks, Llangynfelyn

### Ffrwythau

**3 afal bwyta**
2 Julie Swanson, Dôl Pistyll
3 D E Evans
**3 Afal coginio**
1 Mai Leeding
**3 peren fwyta**
1 D E Evans
**3 peren goginio**
1 & 2 D R O Jones
**3 eirinen**
3 Mai Leeding
**3 eirinen ddu**
1 & 2 Mai Leeding

**Y gwpan am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran ffrwythau**
Mai Leeding

### Trefnu blodau

**Dŵr**
2 Chris Gilbert, Tre'r ddôl
**Y fflam**
1 Chris Gilbert
**Trefniant mewn tebot**
2 Chris Gilbert
3 Nicola Myring Thomas, Dôl Pistyll
**Trefniant gwyrdd**
2 Chris Gilbert
3 Nicola Myring Thomas
**Amser te**
1 Lois Jones, Gellimanwydd
2 Elan Elidir, Nythfa

**Cwpan am y trefniant gorau yn nosbarth 1 & 2**
Lois Jones

### Blodau

**6 Pysen Bêr**
2 D E Evans
**6 math o flodau'r ardd**
2 Ffion Nelmes, Dolau gwyn, Tre'r ddol
3 Nicola Myring Thomas
**Casgliad o flodau blynyddol**
1 Nicola Myring Thomas
**Planhigyn dail y tŷ mewn pot**
3 Mai Leeding
**Planhigyn tŷ yn ei flodau**
1 Betty Jenkins, Carregcadwgan
**Gardd fach ar blât**
1 Ffion Hicks, Llangynfelyn
**Casgliad o flodau gwyllt**
1 Sion Nelmes, Dolau gwyn
3 Ffion Hicks
**Blodyn Twll Botwm**
1 Chris Gilbert
3 Liz Roberts, Maesyderi
**Tusw ysgwydd**
2 Liz Roberts
**Basged grog**
1 Billy Swanson, Dôl Pistyll
**Blwch ffenest**
1 Mai Leeding

**Cwpan am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran flodau i drigolion plwyfi Ceulanamaesmawr a Llangynfelyn**
Mai Leeding a Ffion Hicks

**Cwpan am yr arddangosfa orau yn nosbarth 83 & 84**
Betty Jenkins

**Tlws am yr ardd fach orau ar blât**
Ffion Hicks

**Cwpan am y blwch ffenest gorau**
Mai Leeding

### Coginio

**Cacen Dundee**
3 Carol Davies, Taliesin
**Cacen ffrwythau**
1 Janet Jones, Llwynglas
**Sbwng Fictoria**



Medi12 ceri lliw 2.indd 6
13/09/2012 11:32

3 Janet Jones
**Cacen lemwn**
2 Sian Lloyd Pugh, Dôl Pistyll
**Cacen foron**
3 Mai Leeding
**Bara brith**
3 Janet Jones
**Torth gartref**
1 Jane Bailey, Bontgoch
2 Sheila Talbot, Tal-y-bont
**6 picie ar y mân**
1 & 2 Betsan Siencyn, Tanyrallt
**Meringue lemwn**
3 Carol Davies
**Cacen gaws**
2 Janet Jones
**6 Leicec**
3 Lois Jones
**4 rholyn selsig**
3 Carol Davies
**Tarten ffrwythau**
1 & 2 Marian Evans, Ty Nant
**4 fflapjack**
1 Julie Swanson
**Fy hoff bwdin**
1 Jane Bailey
2 Sian Lloyd Pugh
**Cacen i ddynion**
1 & 2 Rhydian Evans, Glanaber
2 Elfyn Jones, Hyfrydle

**Cwpan am yr arddangosfa orau**
Marion Evans, Ty Nant

**Gwobr yn rhoddedig gan Mr Owen Hammonds, Bontgoch am y nifer uchaf o bwyntiau gan ddyn yn yr adran goginio**
Rhydian Evans

## Cyffeithiau

**Jam ffrwythau a charreg**
1 & 2 Dilys Morgan, Alltgoch
3 Helen Hicks
**Jeli ffrwythau**
1 & 2 Sharon Lewis, York House, Tre'r ddol
**Ceuled Lemwn**
1 Janet Jones
2 Sharon Lewis
**Picl cymysg**
1 & 3 Janet Jones
2Tegwen Jones, Glasgoed
**Jeli mintis**
1 Tegwen Jones
2 Sharon Lewis
**Cyffaith anarferol**
1 Dilys Morgan
2 Sharon Lewis
**3 Cyffaith fel anrheg**
1 Helen Hicks
**Colslo**
1 Jane Bailey
3 Carol davies
**Paté**
1 Jane Bailey
2 & 3 Carol davies
**Potel o gordial**
1 Janet Jones
2 Sharon Lewis

**Cwpan am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran gyffeithiau**
Sharon Lewis

## Cynnyrch Llaethdy

**4 wy brown**
1&2 Margaret Jenkins, Ty'n graig
**4 wy gwyn**
3 Dylan Wyn Benjamin, Cysgod y Crib
**4 wy arlliwedig**
1 & 2 Margaret Jenkins
3 Becca Fflur
**4 wy hwyad**
1 Janet Jones

**Cwpan am yr arddangosfa orau yn yr adran**
Margaret Jenkins

## Mêl

**Mêl ysgafn**
3 Phil Regan, Free Trade Hall, Taliesin
**Mêl canolig**
2 R A Spencer
**Cwyr gwenyn**
2 R A Spencer
**Crib o fil**
1 Craig Swanson, Dôl Pistyll

## Gwaith llaw

**Sampler**
1 Betty Jenkins
2 Dilys Morgan
**Eitem mewn pwyth croes**
3 Betty Jenkins
**Clustog**
1 & 3Dilys Morgan
**Eitem mewn cotwm crosio**
1 & 3 Dilys Morgan
**Gwaith cynfas**
2 Betty Jenkins
3 Dilys Morgan
**Pincas**
1&2 Dilys Morgan
3 Betty Jenkins
**Decoupage` 1**
1 Betty Jenkins
**Cerdyn cyfarch**
1 Dilys Morgan
3 Betty Jenkins

**Cwpan am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran**
Dilys Morgan

## Crefftau

**Gwaith coed**
1 Michael Deanielle, Tal-y-bont
**Crochenwaith**
1 &2 Ruth Jên, yr Hen Siop Sgidie
**Peintiad yn gyfyngedig i drigolion Ceulanamaesmawr a Llangynfelyn**
1 Ianto Hammonds, Bontgoch
2 S Haynes
3 Menna Morgan

## Ffotograffiaeth

**Ar doriad dydd**
2 Gerwyn Breeze, Dôl Pistyll
**Yn y môr**
3 Steffan Thomas, Glas y ddôl, Tal-y-bont
**Cymeriad lleol**
1 Ann Jenkins, Llety'r Bugail
3 Sheila Talbot, Tŷ Clyd
**Canolbwyntio**
1 Catrin M S Davies, Tal-y-bont
2 Ianto Hammonds
**Coeden unig**
1 Rhian Nelmes

## Adran plant

Cynradd

**Elfed yr eliffant**
1 Emlyn Meek
2 Toby Bicknell
3 Efa Saunders Jones
**Llun o'm cartref**
3 Grace Jones
**Fy hoff dymor**
1 Elinor Davies
2 Asher Wood
3 Glauer Fflasnely
**Poster argraffu bloc**
1 Emily Bradley
2 Seren Putt
3 Nia Benham
**Hunan bortread**
1 Aled Jones
2 Emily Sweeney a Gemma Burnham
3 Lecsi Powell-Taylor a Bedwyr Siencyn

Uwchradd

**4 fflapjack**
2 Ffion Nelmes
**Pizza**
2 & 3 Ffion Nelmes
**4 bisged**
1 Glover, Tal-y-bont
2 Ffion Nelmes
**Gemwaith bwytadwy**
2 & 3 Ffion Nelmes
**Ffotograffiaeth**
1 & 2 Ffion Nelmes
**Stop drws**
3 Ffion Nelmes
**Eitem o glai**
3 Ffion Nelmes

**Cwpan am y nifer uchaf o bwyntiau yn adran y plant ysgol uwchradd**
Ffion Nelmes

## Clwb Ffermwyr Ifainc

**4 brownie siocled**
3 Anwen Jenkins, Tyngraig
**4 gacen gwpan**
1 Anwen Jenkins
**Gwaith coed**
1 & 2 Gareth Jenkins, Ynyseidiol
**Ffotograffiaeth**
1 & 2 Sara Jenkins, Ty'n graig
**Gwaith metal**
1 & 3 Rhydian Evans, Neuaddfawr
2 Hefin Evans, Neuaddfawr

**Cwpan am yr arddangosfa orau yn adran CFfI**
Rhydian Evans

## Rasus cwn

Dosbarth 1
Ras i gwn defaid
1 Ruth Hughes - Myfanwy
2 Dafydd Sils Jones - Popty Ping

Dosbarth 2
Ras i Ddaeargwn
1 Bedwyr Jenkins - Pero
2 Glenys Davies - Vixen
3 Aled Davies - Ben

Dosbarth 3
Ras i Filgwn neu Chwn potsiwr
1 Ian Mc Mahon - Zac
2 Owain James - Boost
3 Llyr James - Sunny

Dosbarth 4
Ras i Filgwn bach
1 Mandy Daniel - Oliver
2 Kristian Roberts - Lilly

Dosbarth 5
Ras i unrhyw frid arall coes byr
1 Iola Evans - Bella
2 Billy Swanson - Moli
3 Llyr James - Sali

Dosbarth 6
Ras i unrhyw frid arall coes hir
1 Chris Fry - Star
2 Anne – Marie Bizart - Luna
3 Ceri Davies - Maizie

Dosbarth 7
Ras i ddisgyblion ysgol gynradd
1 Bedwyr Siencyn - Pero
2 Rhys Griffiths - Siani
3 Dylan Wyn - Molly

Dosbarth 8
Ras i ddisgyblion ysgol uwchradd
1 Owen Williams - Luna
2 Calvin Pugh - Gelert
3 Anna Allen Jones - Teddy

Dosbarth 9
Ras i ferched a'u cwn
1 Ffion Evans - Celt
2 Gwen Wigley - Lexy

Dosbarth 10
Ras i ddynion a'u cwn
1 Owain James - Boost
2 Dewi Jenkins - Sunny
3 Dylan Davies - Eloise

Ras olaf y diwrnod
Owain James - Boost

## Pencampwyr Y Sioe

**Ceffylau**: Davies, Ffospompren, Llanilar
**Da Duon:** K Ellis a'i Feibion, Tywyn
**Da Biff**: D a L Davies, Trefenter
**Defaid Duon**: Bethan Davies, Llanfynydd, Caerfyrddin
**Torddu**: A Edwards a E Davies, Llanilar
**Torwen**: N & E Evans, Llanrhystud
**Penfrith**: R Howatson, Dinbych
**Suffolk**: D a J Morgan, Llanfihangel y Creuddyn
**Charollais**: G Davies, Bethania
**Balwen**: G Morgan, Llambed
**Bridiau Pur**: R Ebenezer, Llangeitho
**Bridiau Prin**: A a J Flexman, Llambed
**Pencampwr y Defaid**: R Howatson, Dinbych


**Y Fframdy**
Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.
Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

**James Memorials**
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111




Medi12 ceri lliw 2.indd 7 13/09/2012 11:32



Llongyfarchiadau i Enoc a Dewi Jenkins, Tynygraig, ar ennill y wobr gyntaf am y grŵp gorau o ddefaid, yn cynnwys 1 gwryw a 2 fenyw, yn y Sioe yn Llanelwedd, gyda Dafydd Jenkins yn cynorthwyo i'w dal.

**Panel Dinasyddion Ceredigion**

**Cyfle i ddweud eich dweud!**

Mae'r Cyngor, yr Heddlu a'r Bwrdd Iechyd eisiau clywed eich barn am wasanaethau lleol a materion yn eich ardal chi. Byddwch yn derbyn 3 arolwg y flwyddyn drwy e-bost neu drwy'r post, ac ar ôl pob un ymarfer ymgynghori, bydd un person lwcus yn derbyn £50!

Os hoffech ddod yn aelod Panel, cysylltwch â Hannah Hyde drwy e-bost ar hannah.hyde@dyfed-powys.pnn.police.uk neu galwch 01267 226262 i ofyn am ffurflen recriwtio. Hefyd, gallwch lenwi'n ffurflen ar-lein ar http://www.snapsurveys.com/swh/surveylogin.asp?k=129726537408.

## LLWYDDIANT YN Y BRIFWYL

**Llongyfarchiadau i'r enillwyr lleol yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni:**

Dyfarnwyd y wobr gyntaf am ysgrifennu soned ar y testun 'Gwynfor Evans', i Hywel M Griffiths, Y Garth, Tal-y-bont.

Aelodau o gôr Ger y Lli, Aberystwyth a gafodd y drydedd wobr yn y gystadleuaeth i gorau alawon gwerin oedd mam a merch sef Anwen a Carys Howard, Brynfa, Tal-y-bont.

Enillodd Sam Ebenezer, 1 Maes y felin, Tal-y-bont y drydedd wobr ar yr Unawd allan o sioe gerdd i rai o dan 19 oed. Canodd Sam yr unawd 'Gethsemane' allan o'r sioe gerdd 'Jesus Christ Superstar'.

Dwy chwaer ysgafndroed yw Niamh a Lily O'Brien, Cytringham, Tal-y-bont. Yn cael eu hyfforddi gan eu mam Emma, ac yn aelodau o ysgol ddawns Canolfan y Celfyddydau, enillodd y ddwy yr ail a'r drydedd wobr i grwpiau dawnsio cyfoes.

Mae Nigel Hardy, Tre'r Ddôl yn aelod o'r grwp gwerin 'A Llawer Mwy' a enillodd yr ail wobr yn y gystadleuaeth i grwpiau offerynnol.

Gwelwyd sawl wyneb arall cyfarwydd o Ffwrnais a Thal-y-bont ar lwyfan y brifwyl yn cystadlu mewn corau a pharti llefaru.


K Hughes

**Plymio a Gwresogi**
**Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi**
**Gwasanaeth Boeler Olew**

01970 832129
07761 917235

# GAREJ DAVMOR

**M.O.T., Gwasanaeth, Batris a Theiars**

Gellir llogi car, fan neu fws mini i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
**Ffôn: 01970 832278**

# GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

**GERAINT JAMES**
**Ffôn: 01970 612459**
**Mob: 07967235687**
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL





Cymdeithas Alzheimer's | Arwain yr ymgyrch yn erbyn dementia

Does yr un ohonom yn gallu gwneud popeth, ond gall pawb wneud rhywbeth

**Mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu gyda'r gwasanaethau lleol. Gwirfoddolwyr i sefydlu grŵp codi arian, bod yn gyfaill, a, gan fod llawer o wahanol gyfleoedd gwirfoddoli, mae yna rywbeth i bawb**

Mae 40,700 o bobl yn dioddef o ddementia yng Nghymru ac mae'r ffigwr hwn yn debygol o gynyddu i 43,500 erbyn 2013

**Cysylltwch â Gill Morgan – Swyddog Gwirfoddoli ar 01269 845953 / 07715 802632 neu e-bostio: gillian.morgan@alzheimers.org,uk**

Elusen gofrestredig rhif 296645




Medi12 ceri lliw 2.indd 8 13/09/2012 11:32

# Ysgol Llangynfelyn

### Ffarwelio
Ffarweliwyd â Miss Lisa Raw-Rees ar ddiwedd tymor yr haf. Bu Lisa'n dysgu'n rhan-amser yn yr ysgol am amryw o flynyddoedd. Gobeithiwn ei chroesawi nôl i'r ysgol fel athrawes gyflenwi yn fuan iawn.

### Disgyblion newydd
Croeso mawr i dri disgybl newydd i'r ysgol. Mae Seren Keirch wedi symud i'r ardal o Lanfihangel y Creuddyn ac yn dechrau ym Mlwyddyn 6. Mae Dylan Kerridge a Noah Berry yn dechrau yn y Dosbarth Derbyn. Gobeithiwn y bydd y tri yn hapus iawn yma gyda ni yn Ysgol Llangynfelyn.

### Mabolgampau
Cafwyd ein mabolgampau blynyddol ar brynhawn braf ar ddiwedd mis Mehefin ar Ddiwrnod Chwaraeon y Byd. Bu cystadlu cyffrous rhwng y ddau dîm – Cletwr a Mochno. Y tîm buddugol ar y diwrnod oedd Cletwr. Pwyntiau Uchaf – Merched Cyfnod Sylfaen – Jasmine Berry, Pwyntiau Uchaf – Bechgyn Cyfnod Sylfaen – Finn Langley, Pwyntiau Uchaf – Merched Cyfnod Allweddol 2 – Milly Hughes, Pwyntiau Uchaf – Bechgyn Cyfnod Allweddol 2 – Zeb Rowell. Fel rhan o weithgareddau Diwrnod Chwaraeon y Byd – cafwyd cyfle i flasu bwydydd o wlad Denmarc – sef y wlad bu'r ysgol yn cefnogi yn y Gemau Olympaidd.

# Ysgol Tal-y-bont



Croeso i ddwy athrawes newydd i Ysgol Tal-y-bont sef Miss Sioned Morris a Miss Sara Morgan.



Trefnwyd arddangosfa o waith celf yn yr Hen Siop Sgidie, Tal-y-bont, ar ddydd Sadwrn 23 Mehefin er mwyn codi arian i Gronfa Apêl Llifogydd Gogledd Ceredigion. Roedd gwaith dau arlunydd lleol talentog, Pete Monaghan a Ruth Jên, ar werth.

# Seremoni Agoriadol y Gemau Olympaidd




Aethon ni i Lundain ar gyfer y 'Guard of Honour'. Roedd yn rhaid i ni fod yn Orsaf Borth erbyn 05:27. Roedd pawb yn gorfod gwisgo trowsus neu drac siwt du a crys-t gwyn, hyd yn oed Miss Jones a Mrs Nelmes. Pan gyrhaeddon ni Llundain aethon ni'n syth o Orsaf Euston i'r gwesty – Travelodge, Euston. Gadawon ni ein pethau yno a rhoi beth oedd angen arnon ni mewn un bag yr un. Cerddon ni i Orsaf St. Pancras i ddal y trên 'Javelin' i Orsaf Stratford. Pan gyrhaeddon ni Stratford, aethon ni'n syth i Siop London 2012. Prynon ni llawer o bethau. Wedyn daeth criw teledu'r BBC i'n ffilmio ni. Aethon ni gyda llawer o blant eraill ac athrawon i mewn i'r Parc Olympaidd. Roedd yn rhaid i ni ddangos ein bagiau i'r milwyr a mynd trwy sganiwr fel sydd mewn maes awyr. Cawsom ni docyn i fwyta cyn mynd am daith o gwmpas y Parc Olympaidd. Gwelon ni du allan bob adeilad a dysgu ffeithiau am y Gemau Olympaidd. Ar ôl y daith, aethon ni i'r Copper Box ble chwaraewyd y gemau 'Handball'. Cawsom ni swper ac roedd Zoe Salmon oedd arfer bod ar Blue Peter yn gwneud gweithgareddau yno. Roedd pawb yn cael crys-t arbennig i wisgo i wneud y Guard of Honour. Daeth Wenlock a Mandeville y masgotiaid i'n gweld ni hefyd. Wedyn roedd hi'n amser i fynd tu allan y Stadiwm Olympaidd i'r orymdaith. Roedden ni yn cario dwy lusern a'n baner Denmarc roedden ni wedi paentio yn yr ysgol. Roedd yr athletwyr yn aros i fynd i mewn i'r stadiwm o'n blaen ni mewn un rhes hir. Dechreuwyd gyda Groeg ac wedyn Afghanistan ac yn y blaen. Roedd yr athletwyr yn rhoi bathodynnau i ni ac yn arwyddo ein llyfrau llofnodion. Yn olaf daeth athletwyr Prydain Fawr. Gwelon ni Jessica Ennis, Tom Daley a rhedodd Usain Bolt heibio a rhoi 'High-5' i bawb. Roedd athletwyr Denmarc yn hoffi ein baner yn fawr iawn. Tynnon ni lawer o luniau o'r athletwyr. Roedd pawb yn garedig iawn yn dod i siarad gyda ni wrth iddyn nhw aros. Pan orffennodd yr orymdaith cerddon ni nôl drwy'r Parc Olympaidd i'r orsaf a mynd ar y 'Javelin' nôl i'r gwesty. Aethon ni i'r gwely am 1 o'r gloch y bore. Deffron ni yn eithaf cynnar y bore wedyn ac ar ôl brecwast dalion ni'r trên nol i Borth. Roedd ein rhieni yn Borth yn aros amdanom ni. Roedd pawb wedi blino ar ôl dau ddiwrnod cyffrous iawn yn y Gemau Olympaidd.

Gan – Ffion Hicks, Willow Celik, Milly Hughes, Mabli Rose, Lecsi Taylor, Emily Sweeney, Gemma Burnham a Celyn Evans.



Medi12 ceri lliw 2.indd 9 13/09/2012 11:32

# PROFEDIGAETHAU

**Daeth profedigaeth lem i ran sawl teulu yn yr ardal yn ystod yr haf a chollwyd ffrindiau a chymdogion. Cydymdeimlwn yn fawr â chi bob un.**

**WILLIAM FELIX ROBERTS**

Cafodd Gwilym ei eni a'i fagu yn Darren, Tal-y-bont ond yn fuan ar ôl cychwyn yn Ysgol Tal-y-bont symudodd y teulu i'r Felin, Tre'r Ddôl ac aeth i Ysgol Llangynfelyn.

Yn 14 oed mentrodd i Lundain ble cafodd swydd am dair blynedd ar rownd laeth gyda Chymry o Geredigion. Dychwelodd i Dal-y-bont ble bu'n gweithio ar nifer o ffermydd lleol. Priododd gyda Betty ym mis Ionawr 1953 a magodd y ddau deulu o bedwar o blant. O 1953 hyd 1970 bu'n gweithio gyda'r Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Sir Ceredigion cyn ymuno â Bwrdd Dŵr Cymru. Ymddeolodd o'i waith ym 1987.

Cyfrannodd yn helaeth i'w gymuned dros y blynyddoedd. Roedd yn un o Ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa a bu'n Gynghorydd ar y Cyngor Cymuned am 40 o flynyddoedd cyn ymddeol yn 2008. Bu gyda'r clwb ieuenctid a bu'n gefnogwr brwd i dim pêl droed Tal-y-bont. Am flynyddoedd lawer bu'n warden cydwybodol yn Eglwys Dewi Sant ac un o'i ddyletswyddau niferus oedd canu cloch yr eglwys. Cynhaliwyd ei angladd yn yr eglwys a olygai cymaint iddo.

*DIOLCH*

Dymuna Betty, Einion, Gaynor, Geraint, Eirian a'r teuluoedd ddiolch o galon i'r perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad, tadcu a hen dadcu annwyl, sef Mr Gwilym Roberts.

Diolchwn i'r ficer a'r Parch R Lewis, i swyddogion yr eglwys, Mrs Eirlys Jones a Mrs Myrtle Parker, i Mrs Elisabeth James yr organyddes ac hefyd i Mrs Dilys Morgan a Mrs Tegwen Jones a fu'n paratoi'r lluniaeth.

Diolch hefyd am y rhoddion er cof. Gwerthfawrogwyd yn fawr.

**SARA LEE BRANCH**

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth disymwyth Sara Branch. Tŷ Morlais, Tal-y-bont, ym mis Mehefin, a hithau ond yn ddeugain mlwydd oed. Daeth Sara i fyw i Dal-y-bont, gyda'i phartner Ian, yn fuan wedi iddi gael ei phenodi'n Gynorthwyydd Personol i Lyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol yn 1997. Roedd yn ferch ddeallus ac amryddawn ac am gyfnod bu'n cynorthwyo i ddylunio *Papur Pawb*. Estynwn ein cydymdeimlad i'w theulu ac i Ian.

**DORIS HAIDDWEN ROBERTS**

Brwydrodd Haiddwen yn ddewr yn erbyn yr afiechyd blin canser am bedair blynedd ond bu farw yn ei chartref 11 Maes-y-deri yng nghwmni ei theulu ar 17 Awst. Roedd yn wraig annwyl i Gethin, yn fam i Karen, Rachael a Gavin ac yn famgu i Ben, Kaitlyn, Keira a Chloe. Cynhaliwyd gwasanaeth ei hangladd ym Methel dan arweiniad y Parch R Lewis ar 23 Awst.

Dymuna'r teulu ddiolch i staff ward Meurig, Ysbyty Bronglais a ofalodd amdani tra bu yno ac i'r nyrsys a gofalwyr a ddaeth i ofalu amdani yn ei chartref.

Diolch hefyd i bawb am y cardiau a'r geiriau caredig ynghyd â'r rhoddion tuag at ward Meurig.

**JAMES HUGHES MORGAN**

Ni chefais gwmni Jim yn yr un oedfa yng nghapel Nazareth. Mae'n beth rhyfedd i'w ddweud am ŵr a roddodd wasanaeth hir a chlodwiw i'w Arglwydd am gynifer o flynyddoedd. Ond methu dod wnaeth e, a hynny'n gwbl deg, oherwydd pan ddeuthum yn weinidog i'r ardal ar ddechrau mis Ebrill 2007 roedd ei iechyd eisoes wedi dechrau dirywio. Fel yr unig flaenor yn yr eglwys edrychai ymlaen yn naturiol at gael fy nghroesawu am y tro cyntaf i'r cwrdd, ond yn anffodus doedd hynny ddim i fod.

Bu teulu Maesnewydd yn dal cysylltiad ag eglwys Nazareth o'r dechrau un, er 1869 pan adeiladwyd y capel. Roedd tad-cu Jim, James Morgan, yn flaenor yno ac yn drysorydd yr eglwys; felly hefyd tad Jim, Richard William Mor gan, a fu'n drysorydd o 1920-1961. Yna dilynwyd yntau gan ei fab James Hughes Morgan. Cyflawnodd Jim ei waith fel Trysorydd yr eglwys am bron i hanner canrif, tra ar yr un pryd gwasanaethodd fel blaenor er 1970. Teulu ffyddlon iawn i'r Achos yn Nazareth fu teulu Maesnewydd.

Bu teulu'r Morganiaid yn ffermio Maesnewydd ers dechrau'r ddeunawfed ganrif ac yno yn y flwyddyn 1918 y ganwyd Jim, yn un o ddau o blant Richard ac Elizabeth Morgan. Derbyniodd ei addysg yn ysgolion Tal-y-bont ac Ardwyn cyn mynd yn ei flaen i ddilyn cwrs mewn amaethyddiaeth yng ngholeg Prifysgol Aberystwyth. Daeth adref i weithio ar fferm ei rieni. Yna ymhen rhai blynyddoedd cyfarfu ag Aldwyth, merch landeg o ardal Llandeilo, a oedd wedi dod i Aberystwyth i astudio amaethyddiaeth. Priodwyd y ddau yn 1948. Ganwyd iddynt dri o blant, Richard, Ann a Margaret. Yn drist iawn bu farw Margaret yn 42 oed yn 1992.

Roedd Jim yn amaethwr llwyddiannus ac afraid yw dweud ei fod yn uchel iawn ei barch yn y gymdogaeth. Gŵr diwylliedig a bonheddig ydoedd. Bu ef a'i briod yn Llywyddion Sioe Tal-y-bont ar ddau achlysur, yn 1982 ac wedyn ym mlwyddyn ei chanmlwyddiant yn 1996. Yn ogystal, bu Jim yn Drysorydd y Sioe o 1946 tan 1970. Wn i ddim a oedd e'n gystadleuydd brwd yn y sioeau, ond fe gofnodir hyn yn y gyfrol *Ein Canrif* ar hanes Tal-y-bont: *Mewn seremoni arbennig a gynhaliwyd ar ffald Penpompren, Tal-y-bont, Mehefin 2, 1981, cyflwynwyd Tarian Goffa Perthi i J H Morgan, Maesnewydd, Tal-y-bont. Dyma'r tro cyntaf er pan sefydlwyd y gystadleuaeth 14 mlynedd yn ôl i'r darian ddod i Geredigion. Dyfarnwyd y wobr i Mr Morgan am fod yn berchen yr hwrdd gorau o blith 160 o hyrddod mynydd Cymreig a fuont ar brawf yn Nhal-y-bont Isaf, Bangor, dros dymor 1980-1981.*

*Roedd hefyd yn flaenllaw ar nifer o gyrff yn ymwneudâ chefn gwlad a ffermio, ar bwyllgor rheoli Y CO-OP (Cymdeithas Amaeth Ceredigion) a'r WAOS.*

Ar ôl ymddeol i fyw i bentref Tal-y-bont, os ymddeol hefyd gan fod Jim yn dal i fynd nôl i fferm Maesnewydd bron bob dydd, daeth cyfle iddo ef ac Aldwyth fynd i deithio i wahanol rannau o'r byd, gan gynnwys China, de America ac India'r Gorllewin. Roedd Jim yn aelod ac yn gyn-lywydd y Clwb Rotari yn Aberystwyth a gwnaeth nifer fawr o ffrindiau yno. Anodd meddwl am neb oedd a gair drwg iddo. Roedd ganddo ffordd hyfryd o siarad ac o ymwneud â phawb, boed ar yr aelwyd ym Maesmawr, yng nghapel Nazareth, neu ar glos fferm Maesnewydd tra'n sgwrsio â'r gweithwyr. Cymeriad diddorol a diwylliedig ydoedd, a chymydog da.

Treuliodd Jim ei flynyddoedd olaf yn gaeth i'w gartref lle derbyniodd ofal arbennig a chyson gan Aldwyth a'r teulu. Pan alwn i'w weld, byddai'r sgwrs bob amser yn troi o gwmpas capel Nazareth. Holai'n aml sut lewyrch oedd ar bethau. Gwyddai mai ychydig oedden ni yno ar y Sul, ac yntau'n cofio pan oedd bri ar yr addoliad a'r ysgol Sul, ac ef yn un o bump o flaenoriaid yn y Sedd Fawr. Mae'r olaf ohonynt bellach wedi mynd. Y tro diwethaf i mi ei weld dyma ddweud wrtho, *chi'n gwybod pwy sy gyda chi?* Am eiliad neu ddwy cefais fy siomi. Doedd dim ymateb, dim ond rhyw edrychiad gochelgar. Felly dyma fentro dweud ymhellach wrtho, *gweinidog Nazareth!* Ac yna mewn ffordd a oedd mor nodweddiadol ohono, oherwydd mi roedd yna rhyw gymaint o hiwmor naturiol yn perthyn i'w gymeriad, estynnodd ei law allan oddi tan y flanced gan sibrwd, *a sawl Nazareth arall*.

Bu Jim farw ar 29 Mai, yng nghwmni cariadus ei deulu ar yr aelwyd ym Maesmawr. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng nghapel Nazareth ar 8 Mehefin ac yn dilyn wedyn, yn Amlosgfa Aberystwyth. Gwasanaethwyd gan ei weinidog, yn cael ei gynorthwyo gan Y Parchedig Elwyn Pryse. Estynnir ein cydymdeimlad diffuant ag Aldwyth a'r teulu yn eu profedigaeth.
Parch W Morris

*DIOLCH*

Dymuna Aldwyth Morgan, Maesmawr, Tal-y-bont, a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thad-cu annwyl.



Medi12 ceri lliw 2.indd 10 13/09/2012 11:32

# Cydymdeimlo

Collodd Marie Fox, Y Bwthyn, Pentrebach ei brawd yn ddiweddar.
Ar 9 Gorffennaf, bu farw Peter Simmons, Tremfor, Maes-y-deri, Tal-y-bont. Roedd yn ŵr i Pat ac yn dad i Wendy a David.

Collodd Jen Davies, Erw Lon, Tal-y-bont ei mam, Mrs Gladys Jones, a oedd mewn cartref preswyl yn y Barri, ar 18 Mehefin. Roedd yn fam yng nghyfraith i Gwynfor, mamgu i Nia a Ceri a hen-famgu i Megan.

Bu farw Gareth, brawd ieuengaf Mrs Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont ar 1 Medi, ewythr i Siân a Lynwen. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosfa Aberystwyth ar 8 Medi.

Collodd Betty Roberts ei chefnder, gynt o Afon Valley, Tal-y-bont ond a oedd bellach yn byw ym Mhenybontarogwr.

Bu farw mamgu Geraint a Sian Pugh, Dôl Pistyll a hen-famgu Elin fach.

Daeth profedigaeth i ran Tegwen Jones, Glasgoed, Tal-y-bont gyda marwolaeth ei chwaer yng nghyfraith Lewina Howells, gweddw Meurig, a oedd mewn cartref gofal yn yr Amwythig.

Yng nghartref nyrsio'r Drenewydd, bu farw Mr Alun Evans, Brynawelon, Tal-y-bont, gweddw'r diweddar Mary Jane. Cofiwn am Ceri, Dylan a'r teulu.
*Bydd teyrnged i Alun yn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.*



Cynhaliwyd arddangosfa celf a chrefft yn Eglwys St Mihangel, Eglwysfach dros Gwyl y Banc. Fe godwyd £550. Diolch yn fawr i Sheila Lloyd ac Alison Swanson am drefnu'r cyfan ac i bawb fu'n helpu, cyfrannu a chefnogi. Yn y llun gwelir Rita McCoy yn nyddu gwlan yn ystod yr arddangosfa.


MID WALES STORAGE

**Storfa Canolbarth Cymru**

STORFA DODREFN | STORFA FUSNES ARCHIFAU

STORFA I FYFYRWYR | PACEDU

**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV**
**WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

www.midwalesstorage.co.uk
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
Ffôn: 01654 703592


## TREIALON CWN DEFAID TALYBONT



Elgan Evans, Tynant, yn derbyn cwpan gan Ken Evans, y Llywydd.

Cynhaliwyd y treialon eleni ar Awst 1af ac ar gae yn Llety Ifan Hen fel ers nifer o flynyddoedd bellach. Ni fu'r tywydd yn rhy garedig gyda gwynt a nifer o gawodydd trymion yn ystod y dydd. Dechrau araf fu i'r treialon ond yna bu cystadlu cyson hyd yr hwyr gyda nifer dda o gystadleuwyr - sawl un wedi teithio o'r cyfandir.

Ar ddiwedd y dydd diolchodd cadeirydd, Enoc Jenkins, i deulu Llety Ifan Hen am y cae a'r defaid i'r treialon, i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith yn ystod y dydd, i'r cystadleuwyr am eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd eleni eto, ac yn arbenig i'r beirniad, Sian Jones o Langeitho, oedd wedi cael diwrnod hir iawn. Yna cyflwynodd y llywydd, Ken Evans, Coedgruffydd, a'i wahodd i gyflwyno'r gwobrau.

Enillwyd y dosbarth dull cenedlaethol gan Islwyn Jones, Capel Bangor gyda'i gi Wil a Martha Morgan o Dregaron gyda Becs enillodd y dosbarth dull De Cymru. Hi hefyd enillodd y crochan rhosynod, rhoddedig er côf am Richard Edwards, Lletyllwyd, am y rhediad orau yn ystod y dydd. Eleni, gyda diddymu treialon y Clybiau Ffermwyr Ieuanc, cytunwyd i gynnal dosbarth ar gyfer aelodau y clybiau hyn. Enillwyd y dosbarth gan Elgan Evans, Tynant, gyda Dewi Jenkins, Tyngraig yn ail ac Elin Hope yn drydydd.

Cynhaliwyd cystadlaethau cneifio yn hwyr y prynhawn gyda'r llywydd yn beirniadu. Enillwyd y dosbarth agored gan y cadeirydd, Enoc Jenkins gyda Elgan Evans yn ail a Dewi Jenkins yn drydydd. Llyr James enillodd y ddau ddosbarth i aelodau clybiau ffermwyr ieuanc gyda Elgan Evans yn ail a Dewi Jenkins yn drydydd yn y dosbarth agored. Yn y dosbarth iau aeth yr ail wobr i Dewi Jenkins a Gwion Evans, Tanllan yn drydydd.

Ar ddiwedd y dydd cytunwyd ein bod wedi cael treialon llwyddianus eleni eto er gwaethaf y tywydd.

# Y Gair Olaf

Wrth ysgrifennu'r geiriau hyn ar ddiwedd Awst, mae'n ymddangos mai Gair y Flwyddyn 2012 yw *Gwaddol*.

Cafodd ein cymdogion dros y ffin sawl achlysur i ddathlu eleni. Jiwbilî y Frenhines ym mis Mehefin, a'i hymdeithiau, a'i phartÐon. Honnir y bydd *gwaddo*l economaidd i gyfiawnhau'r cost, wrth i'r twristiaid heidio i Brydain (h.y. Llundain) yn eu miliynau.

Y Gemau Olympaidd, wedyn. Mae'r gwybodusion yn rhagweld, yn sgil llwyddiant Tîm Jî-Bî, y byddwn i gyd yn cymeryd at rwyfo neu pêl-foli-ar-y-traeth i gadw yn ffit a heini. Ie. Wel. Cawn weld. Pob Dydd Calan, mae'r loncwyr yn ymddangos fel madarch, ond yn diflannu'r un mor gloi, gyda phawb yn ôl ar eu soffas erbyn mis bach.

Yn nes adref, cawsom ninnau reswm i lawenhau wrth weld Robat yn dod â Gwobr Goffa Daniel Owen adref o'r Eisteddfod. A'r ddadl flynyddol o blaid cadw'r 'Steddfod yn symudol? Y *gwaddol* mae hi'n gadael yn y broydd sy'n ei chynnal.

Ond cawsom ni, yn ardal Papur Pawb (a'r Tincer) ddigwyddiadau dychrynllyd a fydd yn gadael *gwaddol* llawer mwy parhaol na'r atgofion byrhoedlog Brenhinol ac Olympaidd. Aethpwyd â'r pentyrrau dodrefn o'r Patsyn Glas, ond mae creithiau'r llifogydd o hyd ar lannau nentydd y fro. Anweledig a dyfnach yw'r creithiau a adawyd ar fywydau y rhai a ddioddefodd. Mae colli eiddo yn un peth, ond colli lluniau, atgofion a chartref diogel yn llawer gwaeth.

Ar y llaw arall, gwelwyd y gymuned gyfan yn codi i'r her: y bobl ifanc aeth i glirio'r baw ar fore Mehefin 9fed; y rhai a gynnigodd ymgeledd a llety dros dro; a phawb a gyfrannodd i'r gronfa apêl. Ai'r cyd-dynnu a'r cydweithio hyn fydd *gwaddol* Haf 2012 yn y pentref? Ac oni ddylai ymateb pobl Talybont sychu'r wên seimllyd, hunanfodlon oddi ar wynebau y bechgyn ysgolion bonedd yn y tai mawr 'na yn Stryd Downing?
John Leeding



Medi12 ceri lliw 2.indd 11 13/09/2012 11:32

# Chwaraeon

## TAD A MAB TALENTOG



Mae'n amlwg fod Dai Jones-Hughes a'i fab Ben, Maesyderi, yn cael hwyl ar y cwrs golff y dyddiau hyn. Yn ystod yr haf enillodd y ddau gystadleuaeth Clwb Golff Borth ac Ynyslas ar gyfer parau o chwaraewyr hŷn ac iau, gan sgorio 43 pwynt mewn cystadleuaeth Stableford. Mae Ben hefyd wedi ennill y bencampwriaeth 36 twll ar gyfer ieuenctid y clwb. Llongyfarchiadau i'r ddau.

## GWOBRAU PÊL-DROED



Cynhaliodd aelodau Clwb Pêl-droed Tal-y-bont eu cinio blynyddol yng Nghlwb Golff Capel Bangor ddechrau Awst. Cyflwynwyd tlysau i bedwar chwaraewr sef: Sam Ebenezer, chwaraewr ifanc y flwyddyn; David Griffiths, chwaraewr y chwaraewyr; Barri Southgate, prif sgoriwr; Dylan Hughes, chwaraewr y flwyddyn a ddewiswyd gan reolwyr y clybiau eraill. Llongyfarchiadau i'r pedwar.

## GWLEDD O BÊL-DROED



Timau dan 7 Tal-y-bont gyda'r tlws a gyflwynwyd iddynt gan Eric Roberts. Ceir mwy o luniau yn yr atodiad lliw.

Er gwaethaf y tywydd garw diweddar, roedd Cae'r Odyn Galch mewn cyflwr perffaith ar gyfer Gŵyl Bêl-droed Tal-y-bont a gynhaliwyd ar ddydd Sadwrn 23 Mehefin. Daeth cyfanswm o 30 o dimau yno o bell ac agos i gymryd rhan mewn cystadlaethau ar gyfer plant dan saith, dan naw a dan un-ar-ddeg mlwydd oed. Roedd pob tîm yn eu grwpiau yn chwarae ei gilydd unwaith a'r timau gorau yn symud ymlaen i rownd gynderfynol ac yna rownd derfynol.

Y pêl-droed mwyaf cyffrous a welwyd yn ystod y prynhawn oedd yn y gystadleuaeth i'r grŵp dan saith, gyda Thal-y-bont A a Thal-y-bont B yn rhannu'r tlws, gan nad oedd modd eu gwahanu wedi rownd derfynol gyffrous. Roedd y chwaraewyr wedi blino'n llwyr ar ddiwedd amser ychwanegol, wedi iddynt roi o'u gorau. Enillwyd y cystadlaethau eraill gan dimau Bow Street a Bont Teifi.

Ymddengys i bob un o'r chwaraewyr a gymerodd ran fwynhau'r digwyddiad a rhaid llongyfarch y trefnydd effeithiol Ceri Jones, a'u tîm o wirfoddolwyr, am gynnal diwrnod mor llwyddiannus.

**Gofal Traed Aber**

**Ceiropodydd • Podiatrydd Cofystredig gan yr H.P.C.**

- Triniaethau ar ewinedd a chyrn
- Llawdriniaeth ar gasewinedd
- Triniaeth/asesiad arbenigol ar draed diabetig
- Gwadnau ac asesiad biomechanyddol

**Triniaeth yn y cartref ar gael**

Galwch Shân Jones neu Richard Ellison **01970 617269**

4, Y Porth Bach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AR



CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE

**Glanyrafon**

**Teiars**
**Aliniad Olwyn**
**Ecsôsts**
**Batris**
**Brêcs**
**Hongiad**
**Bar tynnu**
**Gwasanaeth**
**MOT**

TEIARS HUW LEWIS TYRES

**Rhodfa'r Parc**

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan **ALIGNMYCAR.CO.UK**
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774**